Hollalluog a thragwyddol Dduw, dy Ysbryd di sy'n llywodraethu ac yn sancteiddio holl gorff yr Eglwys. Gwranda'n gweddi a offrymwn dros dy holl ffyddloniaid, fel y gallant, yn eu galwedigaeth a'u gweinidogaeth, dy wasanaethu di mewn sancteiddrwydd a gwirionedd er gogoniant i'th enw. Amen.



Mae'r cynhaeaf mor fawr, a'r gweithwyr mor brin; felly, gofynnwch i Arglwydd y cynhaeaf anfon mwy o weithwyr i'w feysydd.
Mathew 9:37, 38



# Gweddïo dros Weinidogaethau

## Medi 2025

Ar **Ddyddiau'r Catgoriau** cawn ein galw i weddïo dros bawb sydd yn y weinidogaeth a'r genhadaeth, a thros bawb sy'n ystyried galwad i weinidogaethu. Bydd 18, 20 a 21 Medi eleni yn Ddyddiau'r Catgoriau. Gofynnwn i chi weddïo dros holl arweinwyr yr eglwys, yn lleygion ac yn ordeiniedig, a thros bawb sy'n ystyried eu galwad.

Os hoffech chi ystyried galwad Duw arnoch chi, ewch am sgwrs gyda'r arweinwyr yn eich Ardal Genhadaeth. Cewch ddysgu mwy am alwad a gweinidogaeth yn https://dioceseofstasaph.org.uk/vocations-and-ministry neu sganiwch y cod QR isod.



Does gan Grist ddim corff ar y ddaear ond eich corff chi, dim dwylo a dim traed ond eich dwylo a'ch traed chi.
Trwy'ch llygaid chi y mae'n edrych mewn tosturi ar y byd.
Ar eich traed chi y mae'n cerdded i wneud daioni.
Â'ch dwylo chi y mae'n bendithio yr holl fyd.

**Teresa o Afila (1515-1582)**



**Gweinidogaeth a Chenhadaeth yn Esgobaeth Llanelwy**

**Corff Crist**: Ni yw Corff Crist! Rydym ni'n cael ein galw i fyw ac i adrodd stori fawr cariad Duw atom, bob dydd.

**Gweinidogaeth a Gomisiynir yn Lleol:** Ydych chi'n cael eich galw i weinidogaeth fugeiliol neu i arwain addoliad neu i ddysgu'r ffydd yn eich Ardal Genhadaeth? Os felly, ewch i gael sgwrs ag Arweinydd eich Ardal Genhadaeth (AAG) neu'r offeiriad lleol.

**Gweinidogaeth Leyg Drwyddedig:** Ydych chi'n cael eich galw i bregethu ac arwain addoliad, i fod yn gaplan yn eich cymuned neu mewn sefydliad, neu i fod yn gaplan gyda phlant a phobl ifanc? Os felly, gallai Gweinidogaeth Leyg Drwyddedig fod yn addas i chi. Gofynnwch i'ch offeiriad neu AAG i'ch rhoi mewn cysylltiad â Chynghorydd Galwadau.

**Y Weinidogaeth Ordeiniedig:** Ydych chi'n cael eich galw i wasanaethu, i fod yn fugail, yn negesydd, yn wyliedydd ac yn stiward? Ydych chi'n cael eich galw i weinyddu'r cymun, i bregethu'r ffydd, i weinidogaethu ac i fod yn arweinydd yn yr eglwys? Gofynnwch i'ch offeiriad neu AAG i'ch rhoi mewn cysylltiad â Chynghorydd Galwadau.

**Arloesi:** Ydi Duw yn eich galw chi i wneud rhywbeth arall, i arloesi ac i wneud rhywbeth newydd, mewn ffyrdd newydd, mewn llefydd newydd, gyda phobl newydd? Gofynnwch i'ch offeiriad neu AAG i'ch rhoi mewn cysylltiad â Chynghorydd Galwadau.

**Corff Crist:** Beth bynnag yw'ch galwad a'ch gweinidogaeth, sut allwch chi fyw eich ffydd yn Nuw a'i rhannu â phobl eraill heddiw? Os hoffech ddarganfod mwy am hyn, ewch am sgwrs gydag arweinydd eich eglwys.



## Hoffem i chi weddïo dros:

- holl bobl Dduw mewn eglwysi, caplaniaethau ac ysgolion ledled ein hesgobaeth wrth i ni geisio gwasanaethu Duw yn y gwaith, gartref, yn ein hysgolion a'n cymunedau ac yn yr eglwys
- mwy o ymrwymiad i fod yn ddisgyblion ac i aeddfedu fel Cristnogion
- y rhai sy'n archwilio'u galwad i weinidogaeth leyg ac ordeiniedig, a'n tîm o Gynghorwyr Galwadau
- pobl sy'n teimlo galwad i'r weinidogaeth, ordeiniedig a lleyg, yn enwedig ymgeiswyr iau a rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ymhlith arweinwyr eglwysig.

**Y rhai a ordeiniwyd ym Mehefin 2025**

David Dobbs (Diacon)
Jampa King (Diacon)
Sharon Morgan (Diacon)
Ian Williams (Diacon)
Glyn Wise (Diacon)
Pam Hallam (Offeiriad)

*Bydd y Diaconiaid yn paratoi i gael eu hordeinio'n Offeiriaid ym Mehefin 2026. Mae llun ohonynt dros y dudalen.*

**Y rhai sy' n paratoi i gael eu hordeinio'n ddiaconiaid yn 2026**

Rob Dawson
Cheryl Hesketh
Elin Douglas Jones
Vicki Stait
Reuben Zwiggelaar

**Y rhai sy'n cychwyn ar hyfforddiant i fod yn Offeiriaid ac yn Ddarllenydd yn 2025**

Deborah Catterall (Offeiriad)
Sharon Dean (Offeiriad)
Rhys Parry (Offeiriad)
Joshua Schoch (Offeiriad)
Hazel Lobo (Darllenydd)

